

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru (Diwygio) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru (Diwygio) 2021.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

14 Medi 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru (Diwygio) 2021 yn diwygio rheoliad 17(2) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021, oedd yn cynnwys cyfeiriad anghywir at reoliad 13(2)(c).

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru (Diwygio) 2021 drwy arfer y pwerau o dan adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a pharagraff 6(2) Atodlen 17 iddi, drwy'r weithdrefn gadarnhaol yn unol ag adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

4.1 Diben yr offeryn statudol hwn yw cywiro croesgyfeiriad anghywir yn y prif reoliadau a osodwyd ym mis Mawrth 2021.

4.2 Mae Rheoliad 17(2) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 yn croesgyfeirio at reoliad 13(2)(c), sy'n groesgyfeiriad anghywir.

4.3 Bydd Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru (Diwygio) 2021 yn cywiro'r camgymeriad hwn drwy ddiwygio rheoliad 17(2) i gyfeirio at reoliad 13(1)(b)(i).

4.4 Effaith y rheoliadau hyn yw sicrhau bod y gwall yn cael ei gywiro a bod y rheoliadau'n weithredol.

5. Ymgynghori

5.1 Nid oes ymgynghoriad wedi'i gynnal gan bod y rheoliadau yn diwygio'r prif reoliadau a osodwyd ym mis Mawrth 2021.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn cysylltiad â'r rheoliadau hyn gan eu bod yn gwneud diwygiad technegol ac nid oes newid yn y polisi ac nid ydynt yn gosod nac yn lleihau costau ar gyfer busnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol neu'r sector cyhoeddus.